Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | J W Jones | H M Morris |
| D W W Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Claire Abraham | Dirprwy Reolwr /Swyddog Derbyniadau |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Melisa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Cath Swain | Rheolwr Trafnidiaeth Integredig |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice a/ac J A Hale

---

**10 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020-2021.**

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd D W W Thomas yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

**Bu'r Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) yn llywyddu**

**11 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020-2021.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd J E Burtonshaw fel Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020-2021.

**12 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol gan aelodau.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**13 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

**14 Dinas a Sir Abertawe - Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.**

Nodwyd Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Dinas a Sir Abertawe.

**15 Llywodraeth Cymru - Teithio gan Dysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol.**

Nodwyd Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru.

**16 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**17 Apêl Cludiant i'r Ysgol.**

Clywodd y Pwyllgor apêl gan riant ESS.

Cyflwynwyd yr apêl yn erbyn penderfyniad yr adran mewn perthynas â’r hawl am gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim o'i gyfeiriad cartref i Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt.

Gwnaeth rhiant ESS sylwadau llafar i'r Pwyllgor i gefnogi’i chyflwyniadau ysgrifenedig.

Gwnaeth swyddogion yr adrannau Addysg a Chludiant sylwadau llafar hefyd i gefnogi’u cyflwyniadau ysgrifenedig.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau amrywiol i'r apelydd a’r swyddogion, ac ymatebon nhw’n unol â hynny.

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig yn llawn.

**Penderfynwyd gwrthod** yr apêl ar ran ESS.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.55 pm

**Cadeirydd**